

# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 8fed 2018 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Geraint Jones, Rhys Richards Gwynfryn Williams, Jean Roberts, Geraint Davies, Arwel Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Euros Puw a Huw Charles.

Cydymdeimlwyd a Geraint Jones yn dilyn ei brofedigaeth yn ddiweddar.

## Cyfarfod Blynyddol.

### i) Cyfrifon 2017-18.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2017-18 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

### ii) Archwiliad Mewnol y Cyngor.

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Adroddodd y clerc bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd ac roedd trefniadau mewn lle i Gyngor Gwynedd archwilio'r cyfrifon yn yr wythnosau nesa.

### iii) Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2018/19.

Cytunwyd yn unfrydol i beidio mabwysiadu'r argymhellion i dalu costau a lwfansau i'r cynghorwyr cymuned. Gan fod Penderfyniad 51, ad-dalu costau gofal, yn orfodol cytunwyd i'w fabwysiadu.

### iv) Adolygu Asedau, Polisiâu a Rheoliadau'r Cyngor.

Cytunwyd bod y Rheoliadau Mewnol ac Aseiad Risg presennol yn gywir. Adolygwyd y rhestr asedau a chofnodwyd fod y ddwy loches bws wedi cael ei archwilio ym mis Ebrill.

### v) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Adroddodd y clerc ei bod wedi cychwyn ar y gwaith GDPR ond roedd y diffyg arweiniad gan Un Llais Cymru a phrinder adnoddau yn rhwystredig iawn. Eglurodd fod angen i'r Cyngor gymryd camau priodol i ddiogelu data personol y clerc, y cynghorwyr eu hunain, contractwyr yn ogystal â'r cyhoedd. Dosbarthwyd yr hysbysiad preifatrwydd perthnasol i'r clerc a'r cynghorwyr. Rhoddwyd caniatâd i'r clerc brynu cwpwrdd gyda chlo i storio'r gwaith papur yn ddiogel.

### vi) Etholwyd y cynrychiolwyr canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd. Partneriaeth Penllyn: Geraint Davies ac Arwel Davies. Yn dilyn trafodaeth gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau ynglyn a ychwanegu enw tu cefn pan oedd y ddau gynrychiolydd yn methu mynychu'r cyfarfodydd.

## Cyfarfod Misol.

### i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.

### ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

### iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

#### i) Llythyrau diolch.

Derbyniwyd llythyrau yn diolch am y cyfraniadau ariannol a ddosbarthwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth.

#### ii) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

a) Dwr yn gorlifo i'r ffordd rhwng Ty'n Pant a Pentre, Llidiardau – cafwyd cadarnhad fod angen agor ffosydd gerllaw.

#### **iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

##### **a) Parc Cenedlaethol Eryri**

i) Cynllun Datblygu Lleol adolygedig Eryri 2016-2031 – copi o'r ddogfen 'Newidiadau Ffocws'.

##### **b) Un Llais Cymru**

i) Llythyr o ddiolch am ailymaelodi.

##### **c) Cyngor Gwynedd**

i) Rhaglen waith yr Adran Priffyrdd ar gyfer mis Mai 2018.

##### **ch) Amrywiol**

i) Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig - gwybodaeth am eu cystadleuaeth 'Gwobr Pentrefi Meirionnydd 2018'. Cytunwyd i basio'r wybodaeth ymlaen i'r pwyllgorau lleol.

ii) Mapio'ch Cyngor - Derbyniwyd gwybodaeth am eu gwasanaeth mapio. Cytunwyd fod gan y Cyngor mapiau digonol yn barod.

#### **v) Materion Ariannol.**

a) Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £2,000

##### **b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-**

Zurich (Yswiriant) - £257.60

##### **c) Anfoneb Partneriaeth Penllyn.**

Derbyniwyd copi o gyfrifon 2016/17 y Bartneriaeth a Cwmni Pum Plwy Penllyn. Yn dilyn trafodaeth gofynnwyd i'r clerc gysylltu'n ôl i gael rhagor o fanylion cyn awdurdodi'r taliad.

##### **ch) Ceisiadau ariannol**

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Steve Morgan Foundation a Bobath. Cytunwyd i gadw'r ceisiadau a'u trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

#### **vi) Unrhyw Fater Arall.**

i) Gofynnwyd i'r clerc basio gwerthfawrogiad y Cyngor i'r gwaith a waned gan weithlu Cyngor Gwynedd i'r bont droed ym mhentref Parc a hefyd y gwaith tocio'r gwrychoedd ger Cynythog, Llidiardau.

ii) Cytunwyd i basio'r cwynion canlynol ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

##### **a) Ffordd o Parc i gyfeiriad Pant Neuadd.**

Roedd twll mawr ar ochr y ffordd ger Gwaliau a Bron Ddwyfan gan fod yr haen concriid odycha'r ffos wedi malu.

##### **b) Goryrru trwy bentref Parc.**

Roedd y trigolion lleol yn pryderu am ddiogelwch y plant am fod cynifer o gerbydau yn gyrru trwy'r pentref. Roedd cyfyngiad cyflymder o 30 m.y.a. ar hyn o bryd ond teimlir byddai ei ostwng i 20 m.y.a. a gosod arwyddion ychwanegol yn gymorth mawr.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mehefin  
12fed yn Neuadd Maesywaen am 8.00 y.h.**